

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 285 –27 Ionawr 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2006.

Cyflwyniad ar Deledu Lleol

Cafwyd cyflwyniad ar Deledu Lleol gan Pat Loughrey, Menna Richards, Keith Jones a Kath Allen o'r BBC.

Adroddiad Y Cadeirydd

Cyflwynodd ECS ei hadroddiad. Nodwyd/codwyd y pwyntiau canlynol:

- Y cynnydd statudol yng nghyllid S4C o DCMS ar gyfer 2006.
- Drafft newydd o'r papur ar 'Product Placement'.
- Cytunwyd bod y Diwrnod-i-Ffwrdd wedi bod yn ddefnyddiol.

Adolygiad o Gynllun Corfforaethol 2005

Trafodwyd sut i ddiwygio'r Cynllun Corfforaethol fel bod y targedau yn adlewyrchu'r nod perthnasol a'r ffordd y cyflawnir y nod. Gofynnwyd i'r Aelodau anfon eu sylwadau o fewn y pythefnos nesaf er mwyn cynnwys yn y drafft newydd sy'n cael ei lunio gan y Tîm Rheoli.

Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

Penderfynwyd cyfeirio cwyn at gyfarfod nesa'r Pwyllgor Cwynion i'w hystyried. Nodwyd hefyd bod angen adolygu'r amserlen sydd yng Nghòd Cwynion S4C.

Gròp Cydymffurfiaeth a chofnod cyfarfod y Gròp ar 13 Ionawr 2006

Nodwyd yr adroddiad a'r cofnodion a derbyniwyd. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- *Iaith Anwedus* - Cytunwyd nad oedd angen i S4C gymryd camau pellach ar y pwnc yma ar hyn o bryd gan fod Ofcom yn gweithio ar y cwestiwn o sut i ymdrin ag iaith anwedus yn y Gymraeg.
- *Defnydd o'r Saesneg mewn rhaglenni plant*

Adroddiad Prif Weithredwr

Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- **BBC** – Nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf parthed y Ddogfen Bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC.
- **Ofcom** – Cytunodd yr Awdurdod ar ymateb S4C i gyhoeddiad drafft Cynllun Gweithredu 2006/07 Ofcom.
- **Adolygiad Polisi Rhaglenni 2006** – cyflwynwyd drafft o'r adroddiad i'r Awdurdod.
- **BECTU** – Cytunodd yr Awdurdod i'r cytundeb newydd parthed cyflogau.
- **Datganiad Polisi Rhaglenni 2006** – Cyflwynwyd drafft o'r adroddiad i'r Awdurdod. Nodwyd bod angen i'r drafft yma ddangos ein bod yn symud i'r oes o ddiffodd analog tua 2009.
- **Animeiddio** - Cytunodd yr Awdurdod i'r cynllun newydd.
- **TAC** - Nodwyd bod trafodaeth yn parhau gyda TAC. Mynegodd yr Awdurdod eu dymuniadau gorau i Dafydd Hughes sydd wedi cael swydd newydd fel Cyfarwyddwr Diwydiannau Creadigol yn y Cynulliad.
- **Digital UK** – Yn dilyn cyflwyniad gan Digital UK i S4C yr wythnos diwethaf cytunwyd i wahodd y cwmni i roi cyflwyniad i'r Awdurdod maes o law.
- **Y Gwasanaeth** - Nodwyd nifer o ffeithiau positif ynglŷn â pherfformiad y gwasanaeth yn 2005 yn enwedig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd lle gwelwyd cynnydd yn ffigurau gwyllo dros y Nadolig o gymharu â 2004.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- **Tinopolis** – Mynegodd yr Awdurdod eu llongyfarchiadau i'r cwmni yn dilyn ei llwyddiant i brynu Television Corporation.
- **Ofcom** – Nodwyd bod yr Arglwydd Currie wedi cael ei ail-apwyntio fel Cadeirydd Ofcom.